O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2018 Rhif (Cy.)

TRETHI, CYMRU

Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaeth Atodol) 2018

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 188 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6) ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 2 yn diwygio Deddf Enillion Troseddau 2002 (p. 29) er mwyn gwneud darpariaeth atodol mewn cysylltiad ag adran 186 (enillion troseddau) o'r Ddeddf ac ymchwilwyr ariannol achrededig Awdurdod Cyllid Cymru yn arfer y pwerau sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2018 Rhif (Cy.)

TRETHI, CYMRU

Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaeth Atodol) 2018

Gwnaed	*24 Mehefin 2018*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*28 Mehefin 2018*
Yn dod i rym	*20 Gorffennaf 2018*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 188 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016(**1**).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaeth Atodol) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 20 Gorffennaf 2018.

Diwygio Deddf Enillion Troseddau 2002

2. Mae Deddf Enillion Troseddau 2002(**2**) wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) yn adran 303C(9)(d)(**3**) (swyddog perthnasol at ddibenion Pennod 3A), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(b) yn adran 303E(4)(f) (uwch-swyddog at ddibenion cymeradwyaeth ymlaen llaw i gynnal chwiliadau), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(**1**) 2016 dccc 6.
(**2**) 2002 p. 29.
(**3**) Mewnosodwyd adrannau 303C, 303E, 303L a 303O gan adran 15 o Ddeddf Cyllid Troseddol 2017 (p. 22) ("Deddf 2017").

(c) yn adran 303L(5)(d) (personau penodedig - cadwad pellach o eiddo yr ymafaeliwyd ynddo), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(d) yn adran 303O(2)(d) (personau penodedig - fforffedu eiddo), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(e) yn adran 303Z1(6)(**1**) (dehongli at ddibenion Pennod 3B), yn y diffiniad o "enforcement officer", ym mharagraff (d), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(f) yn adran 303Z2(4)(e) (uwch-swyddog at ddibenion Pennod 3B), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(g) yn adran 303Z14(3)(d) (personau penodedig at ddibenion ceisiadau fforffedu cyfrif), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(h) yn adran 336D(7)(h)(**2**) (uwch-swyddog at ddibenion adran 336A (pŵer y llys i estyn y cyfnod moratoriwm)), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(i) yn adran 378(3C)(c)(**3**) (swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau eiddo dan gadwad o dan Ran 8), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(j) yn adran 378(3D)(c) (uwch-swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau eiddo dan gadwad o dan Ran 8), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(k) yn adran 378(3E)(c) (swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau cyllid clo o dan Ran 8), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers"; ac

(l) yn adran 378(3F)(c) (uwch-swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau cyllid clo o dan Ran 8), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers".

Mark Drakeford
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru
24 Mehefin 2018

(**1**) Mewnosodwyd adrannau 303Z1, 303Z2 a 303Z14 gan adran 16 o Ddeddf 2017.
(**2**) Mewnosodwyd adran 336D gan adran 10(4) o Ddeddf 2017.
(**3**) Mewnosodwyd adran 378(3C) i (3F) gan baragraff 59 o Atodlen 5 i Ddeddf 2017.